POLISI A STRATEGAETH

# Cynllun Plant a Phobl Ifanc

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny, yn byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Mawrth 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Mawrth 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cynnwys

Neges gan y Dirprwy Weinidog

Ein huchelgais

Yr hyn rydym yn ei gredu

Ein blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru

Ein gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc

Sut y byddwn yn ymddwyn

Sut y byddwch yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd

Sut y gallwch helpu

Sut y byddwn yn eich cynnwys

# Neges gan y Dirprwy Weinidog

> “ Yng Nghymru, rydym am sicrhau'r gorau i'n plant – pob un ohonynt, ni waeth beth fo'u cefndir, o ble y maent yn dod na ble y maent yn byw. Rydym am i bob un ohonynt gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i fynd ymlaen i fyw'r bywyd y maent yn dymuno ei fyw.
>
> Mae'r cynllun hwn yn nodi'r rhan y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae i wneud Cymru yn lle gwych i'n plant a'n pobl ifanc dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

> Yn dilyn etholiad y senedd yn 2021, y gwnaeth llawer o bobl ifanc 16 oed a throsodd bleidleisio ynddo, gwnaethom gyhoeddi ein **Rhaglen Lywodraethu**.
>
> Mae hon yn ddogfen sy'n esbonio i bawb yng Nghymru beth y byddwn yn ei wneud dros y pum mlynedd y byddwn yn llywodraethu, i wireddu'r addewidion a wnaed gennym yn yr etholiad. Mae'n cynnwys llawer o syniadau ac ymrwymiadau i gefnogi plant a phobl ifanc.
>
> Mae'r cynllun rydych wrthi'n ei ddarllen yn esbonio'r gwaith cymhleth y bydd angen i weinidogion Llywodraeth Cymru ei wneud gyda'i gilydd i droi'r syniadau a'r ymrwymiadau hyn yn gamau gweithredu. Mae hefyd yn dangos rhywfaint o'r gwaith rydym eisoes wedi ei wneud ac yn bwriadu ei wneud yn 2022-2023.
>
> Rwy'n ddiolchgar, yn arbennig, i'r plant a'r bobl ifanc a fynegodd eu barn am y blaenoriaethau yn ystod cyfnod llunio'r cynllun hwn. Bydd eich cyfraniad, nid yn unig at y gwaith o lunio'r cynllun, ond hefyd ei gyflawni, yn hanfodol i'w lwyddiant. ”

Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

# Ein huchelgais

Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i blant a phobl ifanc dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, **nawr ac yn y dyfodol**.

# Yr hyn rydym yn ei gredu

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i egwyddorion **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** ac i roi sylw iddo ym mhob

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

penderfyniad a wnawn.

Credwn fod gan bob un o'n plant a'n pobl ifanc yr hawl i wneud y canlynol:

- Cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a'u mwynhau, a chael yr addysg orau bosibl i feithrin eu gwybodaeth a'u creadigrwydd a'u galluogi i wireddu eu potensial
- Mwynhau ffyrdd iach o fyw a chael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod a gwahaniaethu
- Gallu chwarae a chael hwyl
- Cael eu trin â pharch a chael rhywun i wrando arnynt
- Byw mewn cartref a chymuned sy'n lle braf i dyfu i fyny ynddo
- Cael y cymorth ariannol a materol sydd ei angen arnynt

## Ein blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru

Cyhoeddodd gweinidogion Cymru eu **Rhaglen Lywodraethu** ar ôl iddynt gael eu hethol yn 2021. Mae'n cynnwys rhestr o rai o'r pethau pwysig y byddant yn eu gwneud dros blant a phobl ifanc (yn ogystal ag oedolion) cyn yr etholiad nesaf yn 2026.

Yn seiliedig ar ein credoau, rydym yn gwneud llawer o waith i gefnogi plant a phobl ifanc, er mwyn gwireddu ein huchelgais a chyflawni ein hymrwymiadau yn y **Rhaglen Lywodraethu**.

Gall rhywfaint o'r gwaith hwn gael ei wneud yn annibynnol gan un gweinidog. Mae gwaith arall yn fwy cymhleth, ac mae angen dau weinidog neu fwy i gydweithio. Mae rhywfaint o'r gwaith mor gymhleth fel bod angen i'r holl weinidogion gydweithio, fel un Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol, y GIG a'r sector gwirfoddol.

Mae'r tudalennau nesaf yn dweud wrthych am y gwaith rydym yn ei wneud a rhai o'r pethau y dywedodd plant a phobl ifanc wrthym pan wnaethom ofyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

iddynt am eu barn.

**Dros y pedair blynedd nesaf, bydd gweinidogion Cymru yn cydweithio i gyflawni'r blaenoriaethau canlynol:**

**Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar da a chymorth i rieni neu ofalwyr. Dylai gael ei gefnogi gartref, mewn gofal plant ac yn yr ysgol, ac wrth iddo symud rhyngddynt.**

Beth mae hyn yn ei olygu:

- Byddwn yn parhau i wella gwasanaethau blynyddoedd cynnar
- Byddwn yn cynnig gwasanaethau blynyddoedd cynnar i fwy o blant a theuluoedd
- Byddwn yn cynnig mwy o wasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg
- Byddwn yn cefnogi plant gartref, mewn gofal plant ac yn yr ysgol, ac yn eu helpu wrth iddynt symud rhyngddynt
- Byddwn yn cynnig help a chymorth i rieni a gofalwyr
- Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar chwarae mewn lleoliadau gofal plant ac ysgolion

Dywedodd plant a phobl ifanc:

> “ Rydym am fwy o leoedd, a rhai gwell, lle gallwn chwarae'n ddiogel. ”

> “ Mae angen gwneud mwy i adnabod a helpu teuluoedd mewn angen. ”

**Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael ei drin yn deg mewn addysg. Dylent gael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial.**

Beth mae hyn yn ei olygu:

- Byddwn yn sicrhau bod addysg yn brofiad cadarnhaol i bob plentyn a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

pherson ifanc
- Byddwn yn rhoi'r help ychwanegol sydd ei angen ar bob plentyn a pherson ifanc i oresgyn rhwystrau a gwireddu ei botensial
- Byddwn yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch a theg i bob plentyn a pherson ifanc
- Byddwn yn paratoi ac yn cefnogi pobl ifanc yn well pan fyddant yn symud o'r ysgol i (hunan) gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg barhaus

Dywedodd plant a phobl ifanc:

> “ Dylai plant a phobl ifanc gael eu hannog a'u cefnogi, pa beth bynnag yw eu hincwm (teuluol). ”

> “ Ni ddylai neb golli allan ar addysg oherwydd y ffordd mae'n edrych, ei allu, ei ddiwylliant na'i gefndir ethnig. ”

> “ Mae angen lle diogel ar bob plentyn a pherson ifanc i ddysgu ynddo. ”

**Blaenoriaeth: Dylai pob person ifanc gael ei gefnogi ar ei daith drwy addysg, hyfforddiant a (hunan) gyflogaeth, ac wrth iddo symud rhyngddynt.**

Beth mae hyn yn ei olygu:

- Byddwn yn sicrhau bod gan bob person ifanc dros 16 oed o leiaf un opsiwn bob amser: addysg, hyfforddiant neu (hunan) gyflogaeth
- Byddwn yn cefnogi dewis pobl ifanc
- Byddwn yn gwella'r cymorth i bobl ifanc wrth iddynt symud drwy'r opsiynau hyn
- Byddwn yn annog defnyddio a dysgu Cymraeg yn yr ysgol, y coleg, y brifysgol a'r gweithle
- Byddwn yn gwella addysg a hyfforddiant fel y gall mwy o bobl ifanc ennill cymhwyster (uwch)

Dywedodd plant a phobl ifanc:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

> " Mae angen mwy o gymorth arnom yn yr ysgol a'r coleg i'n helpu i ddewis llwybrau gyrfa a dod o hyd i swyddi. "

**Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael ei gefnogi i deimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol.**

Beth mae hyn yn ei olygu:

- Byddwn yn ystyried iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn
- Byddwn yn cefnogi ymgyrchoedd i wella lles pob plentyn a pherson ifanc
- Byddwn yn gwella'r gallu i gael gafael ar gymorth lefel isel ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ogystal â gwasanaethau arbenigol pan fo angen

Dywedodd plant a phobl ifanc:

> " Mae lles meddyliol ac iechyd meddwl yn bwysig oherwydd gallant gael effaith enfawr ar y dewisiadau rydym yn eu gwneud ac, felly, ar weddill ein bywyd. "

> " Mae angen mwy o gymorth iechyd meddwl lefel isel hygyrch nawr fel na fydd angen meddygon a nyrsys iechyd meddwl arnom maes o law. "

**Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael ei gefnogi i gael cyfle teg mewn bywyd**

Beth mae hyn yn ei olygu:

- Ni fyddwn yn gadael neb ar ôl wrth inni symud tuag at Gymru lanach, cryfach a thecach
- Byddwn yn gweithio i atal tlodi ac i gefnogi plant a phobl ifanc mewn cartrefi incwm isel
- Byddwn yn gwella'r cymorth i blant a phobl ifanc y mae angen help ychwanegol arnynt i oresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Byddwn yn gweithio i roi diwedd ar bob math o wahaniaethu, **bwlio**, aflonyddu a thrais

Dywedodd plant a phobl ifanc:

> “ Yn aml, ni all plant a phobl ifanc ag incwm (teulu) isel gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae angen cymorth arnom fel na fyddwn yn colli allan ar y cyfleoedd hyn. ”

> “ Mae cymorth ar gael mewn ysgolion i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mwy difrifol, ond nid yw'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol llai difrifol na phlant o gymunedau ethnig leiafrifol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. ”

**Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc fyw mewn cartref da a diogel.**

Beth mae hyn yn ei olygu:

- Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i atal plant, pobl ifanc a theuluoedd rhag profi digartrefedd
- Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n profi digartrefedd yn cael cartref da a diogel

Dywedodd plant a phobl ifanc:

> “ Dylid sicrhau bod fflat neu gartref, yn hytrach na hostel, ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal. ”

**Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros gyda'u teuluoedd neu ailymuno â nhw, lle y bo'n bosibl**

Beth mae hyn yn ei olygu:

- Byddwn yn cefnogi teuluoedd sy'n wynebu cyfnod anodd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Byddwn yn diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed ac yn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd, lle y bo'n bosibl
- Byddwn yn gwella ein gofal a'n cymorth i blant a phobl ifanc na allant aros gyda'u teulu am gyfnod byr neu hirach.
- Byddwn yn helpu teuluoedd na allant fyw gyda'i gilydd i gadw mewn cysylltiad ac i aduno, lle y bo'n ddiogel gwneud hynny.

Dywedodd plant a phobl ifanc:

> “ Os bydd pethau'n anodd gartref, rydym am i benderfyniadau gael eu gwneud gyda ni, nid drosom ni. ”

# Ein gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae'r tudalennau nesaf yn dweud wrthych am rywfaint o'r gwaith rydym wedi ei wneud o’r blaen a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud dros y 12 mis nesaf.

Nid yw hon yn rhestr o bopeth rydym wedi ei wneud neu y byddwn yn ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc. Byddwn yn mynd ar drywydd gwaith arall.

Byddwn yn diweddaru'r rhestr hon bob blwyddyn, fel y gallwch weld yr hyn rydym wedi ei gyflawni a'r hyn y byddwn yn canolbwyntio arno nesaf.

Bob blwyddyn, byddwn yn siarad â phlant a phobl ifanc cyn diweddaru'r cynllun hwn.

**Y dechrau gorau mewn bywyd**

Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Darparu cymorth ymwelwyr iechyd i bob teulu â phlentyn dan 7 oed – **Plant Iach Cymru**
- Helpu teuluoedd â phlant dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig – **Dechrau'n Deg**
- Cefnogi teuluoedd y mae angen help arnynt -**Teuluoedd yn Gyntaf**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Ariannu 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar bob wythnos i blant bach 3-4 oed rhieni sy'n gweithio – **Cynnig Gofal Plant Cymru**
- Rhoi cymorth a chyngor i rieni – **Magu plant. Rhowch amser iddo**

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2022-2023:

- Cymryd camau i greu un system **addysg a gofal plentyndod cynnar**
- Talu am ofal plant i fwy o blant
- Annog teuluoedd i siarad Cymraeg â'u plant – **Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd**
- Cynyddu nifer y gwasanaethau gofal plant a grwpiau rhiant a phlentyn cyfrwng Cymraeg sydd ar gael – **Cymraeg 2050**
- Cynnig mynediad am ddim i **Eisteddfod yr Urdd 2022**
- Helpu mwy o blant gyda'u lleferydd drwy **Siarad Gyda Fi**
- Rhoi **Bwndeli Babi** am ddim i fwy o deuluoedd
- Darparu cymorth eiriolaeth i rieni y mae eu plant yn wynebu risg o fynd i ofal

### Ysgol a Choleg

Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Gwneud dosbarthiadau babanod yn llai
- Helpu teuluoedd incwm isel i brynu gwisg ysgol ac offer chwaraeon – **Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad**
- Darparu eitemau am ddim ar gyfer y mislif mewn ysgolion a cholegau – **Cynllun gweithredu strategol ar gyfer urddas mislif**
- Sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod ac yr eir i'r afael â nhw yn gynt – **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021**

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2022-2023:

- Rhoi'r **Cwricwlwm newydd i Gymru** ar waith ym mis Medi 2022
- Dechrau ystyried diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol
- Cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r coleg, yn ogystal â gartref ac yn y gymuned – **Cymraeg 2050**
- Annog ysgolion i ddysgu mwy o Gymraeg – **Cymraeg 2050**
- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch a theg i bob plentyn a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

pherson ifanc – **Cymraeg 2050**
- Talu am brydau ysgol am ddim i fwy o ddisgyblion
- Parhau i chwalu'r rhwystrau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol neu namau – **Rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol**
- Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i aros mewn addysg am gyfnod hirach, i gael canlyniadau gwell ac i ennill cymhwyster
- Rhoi gwell cymorth i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol i gael swydd, hyfforddiant neu addysg barhaus

**Meithrin sgiliau a chael swydd**

Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Creu 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel – **Cynllun polisi sgiliau prentisiaethau**
- Rhoi gwell cyngor ar yrfaoedd – **Cymru'n Gweithio**
- Rhoi help i feithrin sgiliau newydd – **Cyfrif Dysgu Personol**
- Rhoi cymorth i bobl ddi-waith sydd ag anghenion cymhleth, sydd mewn tlodi neu sy'n wynebu risg o hynny – **Cymunedau am Waith a Mwy**
- Talu am gymorth gofal plant i rieni mewn hyfforddiant neu sy'n chwilio am waith – **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)**

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2022-2023:

- Cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu (hunan) gyflogaeth i bawb dan 25 oed – **Gwarant i Bobl Ifanc**
- Helpu pobl ifanc 16-18 oed i feithrin sgiliau ar gyfer gwaith – **Twf Swyddi Cymru+**
- Gweithio tuag at greu 125,000 yn rhagor o brentisiaethau – **Cynllun polisi sgiliau prentisiaethau**
- Rhoi gwell cyfleoedd i bobl ifanc gael gwasanaethau paru swyddi
- Annog dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle – **Cymraeg 2050**
- Helpu pobl ifanc drwy'r **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**

**Iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles emosiynol**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- **Newid y gyfraith i roi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol**
- Helpu i annog ffyrdd iach ac egnïol o fyw ledled Cymru – **Y Gronfa Iach ac Egnïol**
- Darparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed – **Haf o Hwyl** a Gaeaf Llawn Lles
- Cyhoeddi cymorth lles emosiynol ac iechyd meddwl ar-lein i blant a phobl ifanc – **Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc**
- Cynnwys iechyd a lles yn y cwricwlwm ysgol
- Cynnig mwy o gwnsela a chymorth iechyd meddwl arbenigol mewn ysgolion ledled Cymru
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i greu **model NYTH/NEST** newydd i gefnogi dull 'dim drws anghywir' o gael gafael ar wasanaethau, a darparu help a chymorth yn gynharach ar gyfer iechyd meddwl ac emosiynol pobl ifanc

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2022-2023:

- Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill i frechu plant
- Helpu plant a theuluoedd i fyw bywydau iachach a mwy egnïol – **Pwysau Iach: Cymru Iach**
- Gwella gwaith ieuenctid fel y gall mwy o bobl ifanc gael lle diogel i wneud ffrindiau, dysgu a thrafod eu problemau
- Parhau gyda'n gwaith ar y **dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol**
- Darparu **model NYTH/NEST** ar draws holl rhanbarthau Cymru er mwyn gwella help a chymorth cynharach ar gyfer iechyd meddwl ac emosiynol pobl ifanc
- Gwella cymorth lles mewn colegau a phrifysgolion
- Darparu **cymorth iechyd meddwl arbenigol "mewngymorth" i ysgolion**
- Mesur i ba raddau y gall cyfleusterau noddfa cymunedol helpu i gefnogi pobl ifanc mewn argyfwng

### Cymdeithas deg, cenedl garedig

Yr hyn rydym wedi ei wneud:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Rhoi'r hawl i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru
- Cyflwyno'r **Cod Ymarfer Statudol ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth**
- Gwella'r broses o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o brofi digartrefedd a rhoi cymorth iddynt – **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**
- Gwella cymorth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2022-2023:

- Adeiladu cartrefi preswyl i blant ag anghenion cymhleth yng Nghymru, fel y gallant aros yn lleol
- Parhau i weithio ac ymgysylltu â darparwyr preifat gofal preswyl a gofal maeth i blant ynghylch y newid i system gofal ddi-elw yng Nghymru
- Parhau i brofi dulliau newydd o ymdrin â thai i bobl ifanc agored i niwed drwy'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref
- Gwella bywydau'r rheini â nodweddion gwarchodedig drwy gyfres o gynlluniau gweithredu sy'n ystyried hil, nam, rhywedd a LHDTC+.
- Datblygu cynlluniau i helpu i ddiogelu merched ifanc rhag cam-drin domestig, aflonyddu a thrais rhywiol.
- Parhau i gyflawni'r **Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru** gan sicrhau dull ailsefydlu sy'n canolbwyntio ar y teulu cyn rhyddhau unigolyn

### Yr argyfwng hinsawdd a natur

Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Gwrthwynebu echdynnu tanwydd ffosil yng Nghymru – **Polisi glo**
- Cyflwyno **tâl am fagiau plastig untro**
- Helpu teuluoedd incwm isel i brynu tanwydd yn ystod y gaeaf - **Cynllun cymorth tanwydd gaeaf**
- Lleihau cost trafnidiaeth gyhoeddus i bobl ifanc 16-21 oed – **Fy Ngherdyn Teithio**
- Gweithio i wella llwybrau cerdded a beicio yng Nghymru
- Cyhoeddi cynllun yn esbonio sut y byddwn yn cyrraedd ein targed o leihau allyriadau carbon i sero net erbyn 2050 – **Cymru Sero Net**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2022-2023:

- **Gwahardd plastig untro**
- Cyflawni ein cynllun **Rhwydweithiau Natur**
- Parhau â'n rhaglenni addysg amgylcheddol, **Maint Cymru** ac **Eco-sgolion** er mwyn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd nesaf
- Dechrau creu **Coedwig Genedlaethol i Gymru**
- Gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo teithio llesol a diogelwch ar y ffyrdd
- Gostwng y terfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl i 20mya
- Cyhoeddi dogfen am gymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

## Sut y byddwn yn ymddwyn

Byddwn yn:

- Parchu hawliau plant, **mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau plant**, a chyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Gweithio'n galed i wireddu ein huchelgais a chyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru, mewn ffordd sy'n adlewyrchu ac yn ystyried y canlynol:
    - pwy ydynt
    - ble yng Nghymru y maent yn byw
    - statws economaidd-gymdeithasol
    - hil, ethnigrwydd a diwylliant
    - cyfeiriadedd rhywiol
    - iaith gyntaf
    - ffydd a chred
    - namau, anghenion dysgu ychwanegol a niwroamrywiaeth
    - hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd
    - p'un a ydynt yn byw gyda'u rhieni, gofalwyr, mewn cartref neu ar eu pen eu hunain
    - p'un a ydynt yn rhieni neu'n ofalwyr eu hunain

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

    - p'un a ydynt mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid
- Sicrhau bod tegwch, cydraddoldeb, cynhwysiant, gwrth-hiliaeth a gwrth-wahaniaethu yn rhan o'n holl waith. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gwneud ein gorau i gynnig cymorth gwahanol a/neu fwy o gymorth i'r plant a'r bobl ifanc hynny y mae angen help gwahanol a/neu fwy o help arnynt i oresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial.
- Hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein holl waith er mwyn **cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050**
- Canolbwyntio ar blant a phobl ifanc fel pobl gyflawn, yn hytrach nag ar rannau o'u bywydau neu eu hamgylchiadau (cyfannol)
- Gweithio ar sail y gred bod gan bob person, teulu a chymuned gryfderau y gellir adeiladu arnynt (seiliedig ar asedau)
- Gweithio gyda phobl a sefydliadau sy'n helpu ac yn cefnogi plant a phobl ifanc (cydweithredol)

## Sut y byddwch yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd

**Mae gweinidogion Cymru wedi gosod naw carreg filltir y maent am i Gymru eu cyflawni.**

Erbyn 2050:

- Bydd o leiaf 99% o blant yn dangos dau ymddygiad iach neu fwy
- Bydd 75% o'r oedolion o oedran gweithio yn meddu ar gymhwyster lefel 3 neu uwch
- Bydd canran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu'n is
- Dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y bydd Cymru yn ei defnyddio
- Bydd y bwlch rhwng cyflogau mewn perthynas â rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd wedi'i gau
- Bydd y bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r gyfradd gyflogaeth yn y DU wedi'i gau, a bydd ffocws ar waith teg a chynyddu presenoldeb grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru
- Bydd Cymru yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net

Bob blwyddyn, byddwn yn mesur ac yn adrodd ar sut mae'r camau gweithredu yn y cynllun hwn yn ein helpu i gyflawni'r naw carreg filltir genedlaethol hyn.

## Sut y gallwch helpu

Gwyddom fod plant a phobl ifanc yn helpu ei gilydd a'u cymunedau ledled Cymru. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn wneud mwy.

Mae llawer o bethau y gall Llywodraeth Cymru a gweinidogion eu gwneud i gefnogi plant a phobl ifanc.

Mae llawer o bobl eraill yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn eu helpu a'u cefnogi bob dydd, fel rhieni, gofalwyr, ffrindiau, athrawon, gweithwyr ieuenctid, hyfforddwyr chwaraeon, meddygon, nyrsys, ymwelwyr iechyd ... gormod o lawer i'w rhestru yma!

Hoffem ofyn i bawb wneud y canlynol:

- Ymuno â ni yn ein huchelgais i wneud Cymru yn lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo
- Penderfynu sut y byddwch yn troi'r uchelgais honno yn gamau gweithredu
- Cydweithio i wella gwasanaethau lleol a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd

Dywedodd plant a phobl ifanc:

- “Dylai pawb deimlo cyfrifoldeb a chyfrannu os yw gweinidogion Cymru am lwyddo i sicrhau newid.”

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Sut y byddwn yn eich cynnwys

Byddwn yn:

- Gwrando ar blant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- Siarad â phlant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd tuag at wireddu ein huchelgais a chyflawni ein blaenoriaethau
- Ymateb i adborth gan blant a phobl ifanc. Gweler **ein manylion cyswllt**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cynllun Plant a Phobl Ifanc** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-plant-phobl-ifanc-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.